CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

Lifelong Learning
Dysgu Gydol Oes

# Cyrsiau rhan-amser rhad ac am ddim

Astudiwch yn rhan-amser i roi hwb i'ch CV, gwella'ch gwybodaeth a chadw'ch meddwl yn fywiog. Rydym hefyd yn cynnig llwybrau i ddysgwyr sy'n oedolion gael mynediad at astudiaethau gradd ym Mhrifysgol Caerdydd.



**www.cardiff.ac.uk/cy/part-time-courses-for-adults**

Ffôn: 029 2087 0000



**Gyda chyllid gan Medr (CCAUC gynt). Mae Prifysgol Caerdydd yn cynnig cynllun hepgor ffioedd i gefnogi myfyrwyr na fyddai ganddyn nhw fynediad at addysg uwch fel arall. Bydd Medr yn talu ffioedd myfyrwyr cymwys.**

Mae’n bosib y byddwch yn gymwys os ydych yn hawlio budd-daliadau penodol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) neu'n perthyn i grŵp sy'n cael ei ystyried heb gynrychiolaeth ddigonol ym maes addysg uwch.

Dewiswch o blith y cyrsiau rhan-amser niferus a gynigir gan Dysgu Gydol Oes yn:




**www.cardiff.ac.uk/cy/part-time-courses-for-adults**

Ffôn: 029 2087 0000

# Pwy all wneud cais

## Meini Prawf Cymhwysedd

I fod yn gymwys ar gyfer y cynllun hepgor ffioedd:

- Mae'n rhaid ichi beidio ag astudio mwy na 20 credyd yn ystod y flwyddyn academaidd hon
- Mae'n rhaid ichi fod yn byw yng Nghymru

Rhowch dystiolaeth o gyfeiriad eich cartref, megis trwydded yrru, bil cyfleustodau neu lythyr dyfarnu budd-daliadau sydd wedi'i ddyddio o fewn y chwe wythnos diwethaf. Derbynnir ffotograffau.

- Mae'n rhaid ichi fodloni o leiaf un o'r meini prawf canlynol:

### Rydych yn dod o ardal o amddifadedd economaidd-gymdeithasol neu o gyfranogiad isel mewn addysg uwch

Mae eich côd post yn rhoi gwybodaeth inni am yr ardal lle rydych yn byw. Mae dau fesur rydym yn eu gwirio pan fyddwch yn gwneud cais. Y cyntaf yw POLAR, sy'n dweud wrthym beth yw'r cyfraddau o ran nifer y bobl sy'n ymgymryd ag addysg uwch ledled y DU. Yr ail yw'r mynegeion amddifadedd lluosog (IMD) sy'n edrych ar ystod o fesurau gwahanol.

Gofynnwch inni wirio eich côd post drwy e-bostio **acsss-finance@caerdydd.ac.uk**



### Rydych yn derbyn budd-daliadau sy'n eich gwneud yn gymwys

Ar hyn o bryd, rydych chi neu'ch teulu* yn derbyn Credyd Cynhwysol neu un o'r budd-daliadau canlynol: Budd-dal tai, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm, Credyd Treth Plant, Credyd Treth Gwaith. Fel arall, rydych yn derbyn Budd-dal Profedigaeth ar hyn o bryd.

*Diffinnir teulu fel: myfyriwr sengl aeddfed, neu bâr priod neu ddibriod, neu gwpl mewn partneriaeth sifil, neu bâr priod neu ddibriod neu gwpl mewn partneriaeth sifil gyda phlant dibynnol, neu riant unigol â phlant dibynnol.

Rhowch dystiolaeth o'ch cymhwysedd, er enghraifft:

- Ciplun o'ch cyfrif budd-daliadau, neu
- Llythyr gan yr asiantaeth fudd-daliadau yn cadarnhau hawl. Mae sganiau a ffotograffau yn dderbyniol

Rhaid i'ch tystiolaeth ddangos eich enw, eich cyfeiriad a'r budd-dal a ddyfarnwyd yn glir. Rhaid i'r dyddiad arno fod o fewn

chwe wythnos i'ch cais neu ddangos yn glir bod yr hawl yn gyfredol neu'n barhaus.

### Rydych yn perthyn i grŵp Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig

Mae Medr a Phrifysgol Caerdydd wedi ymrwymo i gryfhau cydraddoldeb hiliol.

### Rydych yn ffoadur

Cyflwynwch lun neu gopi o'ch cerdyn BRP.

### Rydych yn geisiwr lloches

Bydd angen ichi hefyd lenwi ffurflen fer Hawl i Astudio, sydd ar gael o **acsss-finance@caerdydd.ac.uk.**

### Mae gennych chi anabledd

Rydych yn byw gydag anabledd sydd wedi cyfyngu ar eich mynediad at addysg uwch.

### Rydych yn ofalwr

Rydych yn gofalu, yn ddi-dâl, am ffrind neu aelod o'r teulu sydd, oherwydd salwch, anabledd, problem iechyd meddwl neu ddibyniaeth, yn methu ymdopi heb eich cefnogaeth.

### Rydych wedi gadael gofal neu wedi cael profiad o ofal

Rydych wedi bod yn derbyn gofal gan eich awdurdod lleol neu wedi cael llety ganddo am o leiaf 13 wythnos ers eich bod yn 14 oed.

### Nid yw eich rhieni/ gwarcheidwaid wedi cael eu haddysgu i lefel addysg uwch

Nid yw'r naill na'r llall o'ch rhieni/gwarcheidwaid wedi astudio yn y brifysgol.  Does dim ots os oes gennych frodyr a chwiorydd sydd wedi astudio yn y brifysgol.

### Myfyrwyr LHDTC+

Mae Medr a Phrifysgol Caerdydd wedi ymrwymo i gryfhau cydraddoldeb.

## Sut i wneud cais

1. Darllenwch drwy'r ddogfen hon i wirio a ydych yn gymwys
2. Dewiswch pa gyrsiau yr hoffech eu hastudio, hyd at 20 credyd i gyd **www.cardiff.ac.uk/cy/part-time-courses-for-adults**
3. Casglwch brawf o'ch cyfeiriad cartref a thystiolaeth bellach o gymhwysedd os oes angen
4. Llenwch y ffurflen sydd ar gael ar ein gwefan **www.cardiff.ac.uk/cy/learn/funding** ac anfonwch eich tystiolaeth at **learn@caerdydd.ac.uk**

### GWYBODAETH BWYSIG

Os bydd eich amgylchiadau'n newid ac nad oes gennych chi hawl bellach i hepgor ffioedd, rhaid i chi hysbysu Dysgu Gydol Oes. Ar ôl hynny, efallai y bydd yr hyn sy'n weddill o'r ffioedd dysgu'n daladwy.

Does dim modd i chi wneud cais i hepgor eich ffioedd os ydych chi'n astudio mwy nag 20 credyd mewn un flwyddyn academaidd, hyd yn oed os ydych chi'n talu amdanyn nhw eich hun.

Nid yw cyllid hepgor ffioedd ar gael ar gyfer ailwneud cyrsiau rydych eisoes wedi'u hastudio.

Mae'r Cynllun Hepgor Ffioedd Myfyrwyr yn amodol ar argaeledd.